**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 16.03.2026
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cllr. Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies,Cyng. Aled Jones, Cyng.Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Eifion Jones a'r Cyng. Delme Phillips.

Croesawodd y Cyng. Amy Evans aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.
**101.Datgelu Buddianau Personol:**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.
**102. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.02.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Julian Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Bryan Davies.
**103.Materion i'w hadrodd**
a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.

**104.Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*
- U.Ll.C.-Archebu lle i Clerc/SAC a'r Cadeirydd - Gweinyddu'r Ffurflen Blynyddol.Clerk i bwcio dyddiadau.
- Canon Marianne Osbourne-Clerc i anfon manylion Cynhadledd Cyllido Capeli ag Eglwysi ymlaen.
- PCSO Sylvia Davies-Morris Teams 1400-1430 9/4/26 - nodir.
- Cynhadledd Cyllido Capeli ag Eglwysi 25/3/26 12:15 - Elfed Davies wedi cofrestri i fynychu.
- Cyfarfod Blynyddol Neuadd Cynwyl Elfed 25/03/26 7:30 y.h. nodir.

**105.Cynllunio**
Ni dderbyniwyd ymgynghoriadau cynllunio newydd.
Eitemau Cynllunio byw -
PL/9802 - Wedi'i dynnu'n ôl.
PL/10013-Datblygiad preswyl - parhau.

**106.Taliadau a Chyllid**
**(a)Taliadau a Chyllid**

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| • ME Davies Cyflog Clerc 02/26 | £310.10 |
| • Costau Clerc am stampiau/deunydd swyddfa 2025/26 | £ 90.91 |
| • Maria Thomas Chwefror 26 | £230.00 |
| • Trydan EDF 01.02.26028.02.26 | £ 45.62 |

*Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.Cynigiwyd gan y Cyng. E.D. ac eiliwyd gan y Cyng. J.E.*
Aelodaeth Un Llais Cymru. £206.00. U.Ll.C. i gadarnhau'r pris cyn talu'r aelodaeth blynyddol.
- **Taliadau Adran 137**
- Derbyniodd y Cyngor wyth ffurflen gais wedi'u cwblhau. Cafodd pob cais ei asesu a'i drafod gan y Cyngor. Penderfynwyd dosbarthu'r symiau canlynol: Cwmduad

Community Centre £350.00 , Pwyllgor Henoed Cynwyl Elfed £350.00, Clwb Ffermwyr Ifanc Cynwyl Elfed £350.00, Cae Chwarae Bro Elfed £350.00, Cymdeithas Rhieni ag Athrawon Cynwyl Elfed £350.00, Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed £350.00, Aelwyd Cynwyl Elfed £350.00 a HUTS £150.00 - Cyfanswm £2600.00. Penderfynwyd parhau i gyfyngu'r grantiau i gyrff gwirfoddol sy'n dod â buddion uniongyrchol i'r gymuned ac nid rhoi arian grant i fusnesau neu gwmnïau cyfyngedig.
Cynigiwyd gan y Cyng. J.E. ac eiliwyd gan y Cyng. Cllr. B.D.

- **Lwfans Blynyddol**
- Rhoddwyd taliad blynyddol gorfodol £156.00, costau gweithio o adre, i bob aelod o'r Cyngor Gymuned - cyfanswm £1248.00.
-

***ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU***
Adolygwyd y cyfrifon hyd at 28 Chwefror 2026 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

**107.Materion Priffyrdd:**

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 16.03.26***

*a) C1313 -O Cynwyl Elfed hyd at y Ficerdy - Mae malurion a darnau o Bren a sbwriel yn dechrau cronni eto.*
*b) Llethr Moel Hill - Arwyddion ffordd ar gau mewn lle yn Cynwyl Elfed ond ddim mewn lle ar pen Blaenycoed o'r ffordd.*
*c) Penybont - Talog - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol o wael.*
*d) Bws ysgol yn tynnu lan ar y palmant yn SA33 6TL ar y man lle leolir y "stop" dŵr ac mewn peryg o'i niweidio. Fel arfer mae hyn yn digwydd am 08:00 o'r gloch yn y borau.*
*e) Nid yw'r gwasanaeth bws 460 yn mynd drwy Hermon ar unrhyw amser o'r dydd gan dadael pobl Hermon a deiliadau eraill ar hyd y B4333 heb trafnidiaeth cyhoeddus.*

**108. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Mae angen clirio'r ardal o amgylch y Mesurydd Dŵr er mwyn cael mynediad at y mesurydd a'i ddarllen. Y clerc i gysylltu â swyddog lleol Dŵr Cymru ynglŷn â gwneud y mesurydd dŵr yn fwy hygyrch.
- Mae tystiolaeth o ysmygu y tu mewn i'r ciwbiclau toiled; mae'r mater dan sylw.
- Os oes rhaid i'r glanhawr dreulio amser ychwanegol yn glanhau, yna dylai roi gwybod i'r clerc.
- Mae un o'r cysternau wedi ffeili a hefyd piben yn gwllwng bach yn yr ystafell storio blaen. Mae'r plwmber, Arwel Sharp i drwsio - mae'n aros am darn er mwyn cwblhau'r gwaith.
-
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y parc ar 25 Mawrth. Bydd y Cyng. Amy Evans yn cysylltu â Pwyllgor y Neuadd er mwyn cynnal y ddau gyfarfod yn olynol.Dywedodd y Cyng.Robin Bowen bod angen cefnogaeth ar Pwyllgor y Parc am mae dim ond tri person sydd ar y pwyllgor erbyn hyn.

**Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed**
Hysbysiad wedi'i dderbyn y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 25/03/26.

**<u>109.Unrhyw Fater Arall.</u>**

- *<u>Hyfforddiant - </u>* Un Llais Cymru-ceisiadau am hyfforddiant gweminar am ddim - pedwar lle am ddim ar Gyfer pob modiwl gyda gostyngiad o 50% ar ôl defnyddio lleoedd am ddim.
- Modiwl 24 - Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu - i'w canslo ar gyfer y Cyng. A.E. a'r Cyng. R.B. ar *25/03/16 (Yr un noswaith a chyfarfod y Parc).*
- *U.Ll.C. - bwcio hyfforddiant I'r Clerc a'r Cadeirydd - Gweinyddu'r Ffurflen Blynyddol - clerc i fynychu ar 7/4/26.*

**110<u>. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.</u>**
Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **20 Ebrill 2026** am**: 7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21.25 awr.

…………………………………………………………….
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

…………………………………………………………….
Dyddiad.